Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

19/06/2023

Annwyl Gadeirydd ac aelodau,

Hoffem rannu copi o bapur rydym wedi cyhoeddi ar y cyd ynghylch darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg. Fel comisiynwyr newydd, er ein bod ni'n sylweddoli ac yn awyddus gwarchod annibyniaeth ein sefydliadau, rydym yn sylweddoli hefyd bod dyletswydd arnom i gyd-weithio ar faterion os byddai gwneud hynny yn galluogi newidiadau positif ym mywydau plant a phobl ifanc Cymru. Dyma'r darn cyntaf o waith ar y cyd ar bwnc sydd wedi bod yn bryder i'n swyddfeydd yn ddiweddar.

Mae cyfrwng iaith darpariaeth ADY yn rhan annatod o safon ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth honno. Mae'r papur yn dod i'r casgliad nad yw'r gyfundrefn ADY yng Nghymru ar hyn o bryd yn adlewyrchu anghenion gwlad ddwyieithog. Er bod y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn sefydlu'r egwyddor y dylai'r gyfundrefn ADY yng Nghymru fod yn ddwyieithog, mae'r papur yn dangos bod ffordd bell i fynd er mwyn gwireddu'r weledigaeth hwn.

Ar sail y dystiolaeth, mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion gan gynnwys galw ar i Lywodraeth Cymru sefydlu tasgu cenedlaethol fyddai'n gyfrifol am gydlynu ymdrechion i wella'r ddarpariaeth ADY Cyfrwng Cymraeg ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r papur yn nodi'r prif faterion y dylai'r tasglu eu blaenoriaethu:

- Sicrhau bod awdurdodau lleol wedi adolygu eu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn llawn yn 2023
- Sicrhau bod adolygiadau o ddarpariaeth ADY yn lleol yn cael eu defnyddio i lunio a chyfeirio cynlluniau strategol i gryfhau'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg
- Datblygu'r sail dystiolaeth a chyfrannu at gynllunio adolygiad 5-mlynedd Gweinidogion Cymru o'r ddarpariaeth ADY yn y Gymraeg
- Datblygu cynigion ar gyfer ffurfioli trefniadau cydweithio effeithiol rhwng awdurdodau lleol ar sail ranbarthol.
- Arwain y broses o ddatblygu ymyriadau cenedlaethol mewn meysydd megis cynllunio'r gweithlu, adnoddau a dysgu proffesiynol

Rydym yn gobeithio bydd y nodyn a'r argymhellion o ddiddordeb i chi. Gwyddom fod y Pwyllgor yn monitro'r broses o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, ac yn casglu tystiolaeth rhanddeiliaid i'r perwyl hwn. Gofynnwn felly i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad dan sylw fel tystiolaeth i'r ymchwiliad.

Yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

**Rocio Cifuentes**
Comisiynydd Plant